

Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Hydref 2021

1 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden: 2021/19 - Dymchwel Canolfan Casnewydd

Gofynnodd y Cyngorydd A Morris:

Pan adeiladwyd Canolfan Casnewydd yng nghanol yr 80au fe'i hadeiladwyd fel "Canolfan Ragoriaeth" acymwelodd aelodau a swyddogion â llawer o leoliadau i gymharu gwahanol agweddau. Cymerwyd gofal mawr ac aethpwyd i gostau uchel i ddewis y deunyddiau adeiladu gorau sydd ar gael gan gynnwys y brics wedi'u gwneud â llaw.

1. Pam y dirywiodd yr adeilad i sut raddau y mae'n rhaid ei ddymchwel?
2. Pwy oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhannau o'r strwythur a ddirywiodd y tu hwnt i'w atgyweirio?
3. Ers pryd y gwyddys bod yr adeilad y tu hwnt i'w atgyweirio?

Ymatebodd y Cyngorydd D Harvey:

Darparwyd y wybodaeth hon yn adroddiad y cabinet a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf.

Mae maint y problemau gyda'r to yn ymwneud â diffyg sylfaenol yn nyluniad yr adeilad. Nodwyd hyn fel rhan o arolygiad ymwithiol a gynhaliwyd yn 2020.

Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad, nid oedd y penderfyniad i adeiladu cyfleuster hamdden newydd yn ganlyniad i'r gofyniad cynnal a chadw yn unig, ond hefyd oherwydd nad oedd dyluniad yr adeilad bellach yn cydymffurfio â hygyrchedd modern na safonau amgylcheddol.

Pennir cyllidebau ar gyfer cynnal a chadw asedau fel rhan o broses flynyddol y gyllideb a phleidleisir arnynt gan y cyngor llawn.